Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ganolfan Addysg Gwenllian

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2016**

## Cyd-destun

Cofrestrwyd Canolfan Addysg Gwenllian fel ysgol arbennig annibynnol yn 2012 i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Mae'r ysgol wedi ei chofrestru ar hyn o bryd i dderbyn hyd at 18 disgyblion rhwng 10 ac 19 oed. Yn Rhagfyr 2014, derbyniodd yr ysgol ei disgybl cyntaf.

Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd dysgu helaeth, o ansawdd da, sy'n cynnwys adnoddau da i fodloni anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth, llyfrgell, ardal fwyta, neuadd, ystafell synhwyraidd a man chwarae addas yn yr awyr agored. Mae meithrinfa ddydd yn defnyddio rhan o'r un adeilad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r adeilad a'r ardaloedd allanol wedi cael eu rhannu fel nad yw disgyblion yn yr ysgol yn dod i gysylltiad â'r plant iau.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r ymweliad cofrestru diwethaf. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn bodloni gofynion rheoleiddio.

Ceir perthnasoedd da iawn rhwng staff a disgyblion.

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn darparu ar gyfer ystod eang o bynciau a gweithgareddau addas. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â siopau lleol ac â'r gorsafoedd tân a bad achub, fel rhan o brosiect ar y gymuned leol.

Mae gan y pennaeth wybodaeth ac arbenigedd helaeth mewn perthynas ag ASA, ac adlewyrchir hyn yn yr addysgu. Mae staff yn cynllunio gwersi'n ofalus i gynnwys gweithgareddau dysgu sy'n canolbwyntio'n dda ar dargedau mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau) ac amcanion datganiadau o anghenion addysgol arbennig. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran medrau cyfathrebu, ymddygiad ac anghenion gofal personol.

Mae disgyblion yn defnyddio system cyfnewid lluniau yn effeithiol iawn i fynegi eu hanghenion. Caiff y system ei hymgorffori'n dda yng ngwaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ac mae'n helpu disgyblion i fod yn annibynnol.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau manwl ac addysgiadol ar gyfer rhieni ac awdurdodau lleoli.

## Meysydd i'w datblygu

Er bod y perchennog yn gofyn barn staff a rhieni, nid oes proses hunanarfarnu ffurfiol sy'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i helpu'r ysgol i nodi blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn cynnwys blaenoriaethau clir a thargedau ar gyfer datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys manylion priodol. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys ystyriaeth o adnoddau a graddfeydd amser realistig i gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae polisïau'r ysgol yn newydd, ac nid oes system adolygu ffurfiol.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn effeithio ar gynllunio ar gyfer datblygu'r ysgol

A2 Sicrhau bod y cynllun gwella ysgol yn fanylach

A3 Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

A4 Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am newid sylweddol i ymestyn ystod oedran disgyblion i gynnwys y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Canolfan Addysg Gwenllian |
| **Rhif yr ysgol** | 6696015 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 13/01/2016 |
| **Perchennog** | Reflect Education |
| **Staff** | Pennaeth, 1 cynorthwyydd addysgu, 1 cynorthwyydd gweinyddol |
| **Nifer y disgyblion** | 1 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Amherthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Amherthnasol |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Amherthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Tîm |